**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19$^{eg}$ O FEDI 2011**

**CYNNWYS Y CYNLLUN CYFUNOL I LEIHAU RISG A GWELLA 2010/11 i 2012/13**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Ceisio cefnogaeth yr aelodau i strwythur arfaethedig ar gyfer Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2010-13 a fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r cyfarfod o'r Awdurdod Llawn ar 17$^{eg}$ Hydref 2011; ac i dynnu sylw'r aelodau at yr angen i gytuno ar eiriad penderfyniad(au) y cyfarfod hwnnw i'w gynnwys yn y Cynllun Cyfunol.

## Cefndir

**2.** Bob blwyddyn, mae gofyn i Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi:

a) Cynllun Lleihau Risg/cynllun gweithredu blynyddol erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi;

b) Cynllun Gwella cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol wedi 30 Medi yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi; a

c) gwybodaeth am berfformiad erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ar ôl y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi.

**3.** Mae arweiniad gan Lywodraeth y Cynulliad yn nodi bod amseru'r cyhoeddiadau hyn yn awgrymu'r cyfleustra o lunio un cynllun sy'n cynnwys adroddiad am y flwyddyn ariannol flaenorol, crynodeb o'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a'r cynllun gwella ac unrhyw amcanion ychwanegol mewn perthynas â'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

**Cyflwyniad**

**4.** Yn Hydref 2010, fe wnaeth yr Awdurdod gyhoeddi Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella.

**5.** Mae'r cynllun cyfunol hwn yn cynnwys chwe adran:

| | | |
|---|---|---|
| Adran 1 | - | Gwybodaeth Gyffredinol |
| Adran 2 | - | Perfformiad, cydweithredu a barnau allanol (e.e. gan Swyddfa Archwilio Cymru) yn 2009-10 |
| Adran 3 | - | Crynodeb o Gynlluniau'r Gwasanaeth 2010-11 a'r ymgynghoriad cyhoeddus a gwblhawyd yn 2008 a 2009. |
| Adran 4 | - | Adroddiad o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gwblhawyd yn 2010, a dadansoddiad manwl o'r saith Amcan ar gyfer Gwella yr oedd yr Awdurdod wedi ei osod iddo'i hun ar gyfer 2011-12, gydag esboniad o'r rhesymau pam y gosodwyd pob un, ynghyd â'r canlyniadau disgwyliedig. Nodwyd y camau arfaethedig hefyd, ynghyd â chrynodeb o'r meini prawf y byddai llwyddiant yn cael eu mesur yn eu herbyn |
| Adran 5 | - | Gwybodaeth arall (e.e. manylion cyswllt a threfniadau ymyrryd). |
| Adran 6 | - | Tablau gwybodaeth am berfformiad yn 2007-08, 2008-09 a 2009-10, ymgynghoriad blaenorol, a dyddiadau cyhoeddi a manylion sut i gyfrannu at amcanion gwella yn y dyfodol |

**6.** Yn y broses archwilio a ddilynodd, ni chododd unrhyw faterion yn ymwneud â chydymffurfio.

**Gwybodaeth**

**7.** Mae Cynllun Cyfunol drafft i Leihau Risg a Gwella 2010-13 wrthi'n cael ei baratoi i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Llawn yn ei gyfarfod ar $17^{eg}$ Hydref 2011.

**8.** Yn ddibynnol ar gefnogaeth y Panel Gweithredol, cynigir bod y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2010-13 yn debyg i Gynllun Cyfunol 2009-12, ond gyda'r wybodaeth ynddo wedi ei symud ymlaen flwyddyn.

**9.** Gosodir y Cynllun Cyfunol ar wefan yr Awdurdod erbyn y dyddiad terfynol statudol ar gyfer cyhoeddi, sef 31 Hydref 2011, a chyhoeddir crynodeb o'i gynnwys i'w ddobarthu'n fwy cyffredinol.

**10.** Disgwylir i Swyddfa Archwilio Cymru gwblhau ei archwiliad o'r Cynllun a'i gynnwys yn ystod Tachwedd/Rhagfyr 2011, a chyhoeddi'r canfyddiadau yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol nesaf yn Ionawr 2012.

**11.** Oherwydd amseru'r penderfyniadau, bydd angen i strategaeth yr Awdurdod ar gyfer gwneud arbedion yn 2012-13 gael ei gwneud yn rhan o Adran 4 o'r Cynllun Cyfunol wedi'r cyfarfod o'r Awdurdod Llawn ar $17^{eg}$ Hydref 2011 ond cyn y dyddiad terfynol statudol ar gyfer cyhoeddi, sef $31^{ain}$ Hydref 2011.

**12.** Felly, bydd yr Aelodau'n dymuno ystyried pa drefniadau y maent yn bwriadu eu mabwysiadu ar gyfer cymeradwyo geiriad yr adran hon o'r Cynllun Cyfunol.

**Argymhellion**

**13.** Gofynnir i'r Panel Gweithredol:

(i) gefnogi'r bwriad i gadw'r un strwythur ar gyfer y Cynllun Cyfunol o Leihau Risg a Gwella 2010-13 ag yng Nghynllun Cyfunol y flwyddyn flaenorol, ond gyda gwybodaeth ddiweddaredig;

(ii) nodi'r angen i gynnwys, yn y Cynllun Cyfunol, grynodeb o

benderfyniad(au) yr Awdurdod Llawn ynghylch opsiynau 2012/13 o ran y gyllideb; a

(iii) chytuno ar y trefniadau y mae'n cynnig eu mabwysiadu ar gyfer cymeradwyo geiriad yr adran hon o'r Cynllun Cyfunol ar ôl cyfarfod yr Awdurdod ar 17$^{eg}$ Hydref 2011 a chyn y dyddiad terfynol statudol, sef 31$^{ain}$ Hydref 2011.